



Cylchlythyr

Gwanwyn 2018

Annwyl Aelod Panel,

Croeso i Gylchlythyr Cynnwys Casnewydd....



Mae'r cylchlythyr hwn yn rhoi adborth ar rai o'r pynciau y bu ymgynghoriad arnyn nhw yn ystod Arolygon Panel **Haf** a **Hydref** 2017 gan grynhai 'beth ddwedoch chi wrthym' a 'beth wnaethom ni'. Darllenwch am ragor o wybodaeth!



Beth ddwedoch chi wrthym...

...Gwasanaethau Iechyd

Gwnaethom ddysgu o'r ymatebion fod llawer o bobl wedi cael profiadau cadarnhaol iawn â'r gwasanaethau iechyd, gan gynnwys â gofal ysbyty, Meddygfeydd, optegwyr, deintyddion a fferyllfeydd. Cafwyd llawer o sylwadau cadarnhaol am staff sy'n gweithio ym maes gofal iechyd a'r gwasanaeth y maen nhw'n ei gynnig. Gwnaethom hefyd ddysgu mai un o'r prif heriau a wynebir gan bobl yw hyd y cyfnod aros am apwyntiad â'u Meddyg Teulu. Mae pobl hefyd yn anfodlon ar barhad gofal o fewn eu meddygfa gan nad ydyn nhw'n cael gweld yr un Meddyg yn aml iawn.

Yr hyn a wnaethom ni....

Gwnaethom ddefnyddio'r wybodaeth a roddodd y panel i lywio'r gwaith yn ein Cynllun Gweithredol. Ar gyfer blwyddyn 2018-2019 rydym ni wedi trefnu rhagor o ymweliadau â meddygfeydd er mwyn siarad â chleifion am eu profiad o ddefnyddio'r feddygfa.



Rydym ni hefyd wedi cydnabod sylwadau a threfnu ymweliadau ag unrhyw faes gofal iechyd yr ymddengys y gellid gwella profiad y claf.

Yr hyn a ddwedoch wrthym / a wnaethom... ...defnyddio'r Gymraeg yn Gymdeithasol

Caiff y wybodaeth a gasglwyd drwy'r 'Arolwg Cynnwys Casnewydd' ei defnyddio i helpu i lywio ein targedau ar gyfer 2018-19. Roedd y rhan helaethaf o'r ymatebwyr dros 45 oed. Roedd 8.06% o'r ymatebwyr yn siarad Cymraeg ond nid oedd 1/3 o'r rheiny'n mynd i unrhyw ddiwyddiadau drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr am weld digwyddiadau hanesyddol a diwylliannol neu rywbeth arall ar y rhestr ond ni ddwedon nhw wrthyn yr hyn yr hoffon nhw ei weld.

O ganlyniad i'r arolwg hwn a gwybodaeth arall rydym ni wedi'i chasglu, bwriadwn eleni ddechrau teithiau cerdded grŵp, i wneud cais i Gronfa Dreftadaeth y Loteri ac i gynnal tri digwyddiad diwylliannol gyda phartneriaid eraill yn ystod 2018-19.



Yr hyn a ddwedoch wrthym... ...Diogelwch yng Nghasnewydd

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yr arolwg diwethaf (Ion 2018) yn dal i gytuno bod yr heddlu a'r Cyngor yn delio â throsedd / Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn llwyddiannus yn eich ardal (dros 46%), er bod hynny'n is o'i gymharu â 50-51% (yn ystod 2017). Roedd ychydig yn fwy na 23% yn teimlo nad oedd unrhyw beth yn cael ei wneud o ran problemau diogelwch lleol.

Roedd aelodau'r panel hefyd yn teimlo'n ddiogel yn eu hardal leol a hynny bob awr o'r dydd, er bod y ffigur ychydig yn is o'i gymharu ag un 2017. Yng nghanol y ddinas roedd mwy o bobl yn teimlo'n ddiogel yn ystod y dydd (74%) na gyda'r nos (34%). Roedd barnau ar yr heddlu yn yr ardal leol yn dangos bod y rhan fwyaf o bobl yn cytuno gyda'r datganiadau, yn amrywio rhwng dros 79% (trin â pharch) a 42% (delio a phethau sydd o bwys).

Yr hyn a wnaethom ni....

Bydd eich adborth yn parhau i fod yn fodd i Heddlu Gwent gasglu barn y cyhoedd ar ddiogelwch yng Nghasnewydd ac i ategu Cynllun Lles Casnewydd 2018-23 a gaiff ei gyhoeddi ym mis Mai. Mae canlyniadau'r arolwg hwn yn ategu'r adborth a gasglwyd drwy ein Harolwg Eich Llais Heddlu Gwent.

Diolch!!!

Diolch yn fawr i bob un ohonoch chi a gwblhaodd yr Arolygon Haf a Hydref, rydym ni wir yn gwerthfawrogi'ch adborth. Dyma gyfraddau ymateb terfynol y ddau: Haf (41%, 267 o ymatebion); a Hydref (36%, 238 o ymatebion).

Cysylltu â Ni

E-bost: one.newport@newport.gov.uk neu Ffôn: (01633) 656 656

Gwefan: www.onenewportlsb.newport.gov.uk neu dilynwch ni ar Twitter [@OneNewport](https://twitter.com/OneNewport).